

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn ymwneud â Chynnig Gofal Plant Cymru, sef ymrwymiad i ddarparu addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio plant tair a phedair oed yng Nghymru am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, ac fe'i gwnaed ym maniffesto Llafur Cymru, sef ***Gyda'n Gilydd Dros Gymru (2016)***¹. **Fe'i nodir hefyd yn *Symud Cymru Ymlaen***² ac ymhelaethir arno yn ***Ffyniant i Bawb***³. **Mae'r Cynnig 30 awr hefyd yn rhan o'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi***⁴.

Bydd plentyn yn gymwys o'r tymor ar ôl ei drydydd pen-blwydd nes y mis Medi ar ôl ei bedwerydd pen-blwydd, pan fydd fel arfer yn cael cynnig lle amser llawn mewn Meithrinfa Cyfnod Sylfaen.

Mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr ymrwymiad cyffredinol i addysg gynnar, sy'n darparu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg am ddim i blant tair a phedair oed yn ystod y tymor, o'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd.

Bydd rhieni sy'n gweithio plant tair a phedair oed sy'n byw yng Nghymru yn gymwys i fanteisio ar elfen gofal plant y Cynnig os bodlonir yr amodau canlynol:

- mae'r ddau riant yn gweithio neu mae'r unig riant yn gweithio mewn teuluoedd un rhiant;
- mae pob rhiant yn ennill, ar gyfartaledd, isafswm wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr ar yr isafswm cyflog cymwys, ac nid yw'r incwm gros blyneddol yn uwch na £100,000.

Mae'r cyllid hefyd ar gael mewn amgylchiadau eithriadol eraill, gan gynnwys y canlynol:

- mae un rhiant yn gyflogedig (ac yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr yr wythnos o isafswm cyflog perthnasol ar y gyfradd sy'n gymwys iddo) ac mae gan un rhiant gyfrifoldebau gofalu sylweddol yn seiliedig ar y budd-daliadau penodol a geir am ofalu;

1 Maniffesto Llafur Cymru 2016

<http://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/themes/56f26ee2ebad64d813000001/attachments/original/1460733418/Welsh-Labour-Manifesto2016.pdf?1460733418>

2 Llywodraeth Cymru – Symud Cymru Ymlaen 2016-2021:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf

3 Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol :

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf>

4 Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi :

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf>

- mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr yr wythnos o isafswm cyflog perthnasol ar y gyfradd sy'n gymwys iddynt) ond mae un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb riant, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol (oni bai bod y plentyn hwnnw yn dair neu bedair oed);
- mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr yr wythnos o isafswm cyflog perthnasol ar y gyfradd sy'n gymwys iddynt) ond mae un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol;
- mae un riant yn gyflogedig (ac yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr yr wythnos o isafswm cyflog perthnasol ar y gyfradd sy'n gymwys iddo) ac mae gan un riant anabledd neu mae wedi'i analluogi yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn cael un o'r budd-daliadau cymhwyso canlynol, neu mae ganddo hawl sylfaenol i gael un ohonynt:
 - Budd-dal Analluogrwydd;
 - Lwfans Gofalwyr;
 - Lwfans Anabledd Difrifol;
 - Budd-dal Analluogrwydd Hirdymor;
 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth; neu
 - Credydau Yswiriant Gwladol ar sail analluogrwydd i weithio neu alluogrwydd cyfyngedig i weithio.
- lle mae riant newydd ddod yn hunangyflogedig, ac ar y cam cychwynnol o sefydlu'i fusnes. Bydd angen i rieni gofrestru eu busnes â CThEM a darparu tystiolaeth eu bod yn hunangyflogedig er mwyn bod yn gymwys;
- ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau, lle maent yn bodloni'r diffiniad o riant sy'n gweithio;
- ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a roddir mewn gofal maeth lle mae'r gofalwr maeth yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd ehangach, a lle mae'n unol â chynllun gofal y plentyn. Gall rhieni maeth ddefnyddio eu lwfans gofalwyr maeth i ddangos tystiolaeth o'u henillion.
- er nad yw'n fudd-dal eithrio fel y cyfryw, mewn teuluoedd lle mae un riant yn gweithio ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynnig ac mae'r llall yn cael taliadau gan y Lluoedd Arfog a wneir i gyn-filwyr sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol (er enghraifft, Taliad Gwarant Incwm), bydd y plentyn hwnnw yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig. Fodd bynnag, ni fydd teuluoedd lle mae un riant yn cael budd-dal eithrio ac mae'r riant arall yn cael taliad anabledd gan y Lluoedd Arfog yn gymwys.
- mewn teuluoedd lle mae un riant yn gweithio ac mae'r llall wedi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch, byddant yn parhau i fod yn gymwys os na all y riant yr effeithiwyd arno weithio oherwydd cyflwr iechyd a wnaeth ei orfodi i ymddeol a'i fod yn cael un o'r budd-daliadau cymhwyso a restrir uchod, neu mae ganddo hawl sylfaenol i gael un ohonynt. Yn achos teulu un riant, ni fyddai'n gymwys mwyach petai'n ymddeol yn gynnar oherwydd salwch. Rhaid bod un aelod o'r cartref yn gweithio er mwyn bod yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig.

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?

Cafodd y Cynnig Gofal Plant ei gyflwyno fesul cam, gan ddechrau ym mis Medi 2017, ac fe'i datblygwyd drwy gydweithio â'r saith Awdurdod Lleol a oedd yn weithredwyr cynnar.

Yn ogystal â chydweithio ag ALLau i ddatblygu'r Cynnig, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda darparwyr, a sefydliadau mantell, yn enwedig CWLWM a Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant.

Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)
- Mudiad Meithrin
- Clybiau Plant Cymru
- Blynyddoedd Cynnar Cymru (Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru gynt)
- Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (NDNA)
- Grŵp Darparwyr Gofal Plant Cymru Gyfan (AWARE)
- Dechrau'n Deg Cymru Gyfan
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Chwarae Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Comisiynydd Hawliau Plant
- Estyn
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Comisiynydd y Gymraeg

Mae CWLWM yn cynnwys:

- Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)
- Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Clybiau Plant Cymru
- Mudiad Meithrin

Yn 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch #TrafodGofalPlant (cam 1). Fel rhan o'r ymgyrch hon, targedwyd rhieni a darparwyr gofal plant er mwyn deall y rhwystrau mae rhieni yn eu hwynebu o ran cael gofal plant, yr hyn a oedd yn bwysig iddynt, ac er mwyn sicrhau bod darparwyr yn deall y Cynnig. Holwyd rhieni a chynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb, gyda sioeau teithiol yn ymweld â

lleoliadau gofal plant mewn 15 o drefi ledled Cymru. Cynhaliwyd nifer o ddiwyddiadau rhanbarthol, grwpiau ffocws a weminarau er mwyn siarad â darparwyr gofal plant. Hefyd, comisiynodd Llywodraeth Cymru gyfres o grwpiau ffocws manwl gyda rhieni er mwyn deall y sefyllfa bresennol o ran cael gofal plant, a'u barn am y Cynnig. Erbyn mis Awst 2017, roedd mwy na 6000 o bobl wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y Cynnig.

Cafodd cam 2 ymgyrch #TrafodGofalPlant ei lansio ym mis Hydref 2017, gan ganolbwyntio ar ddarparwyr gofal plant ar lefel genedlaethol. Hefyd, casglwyd barn y rhai a fu ynghlwm ar y dechrau, gan nodi'r gwersi a ddysgwyd ganddynt, a siaradwyd â chymunedau sy'n anos eu cyrraedd a'r rhai sydd angen gwasanaethau arbenigol.

7.2 Pa effeithiau, yn gadarnhaol ac yn negyddol, fu'r rhai mwyaf arwyddocaol?

Mae'r Cynnig wedi cael nifer o effeithiau cadarnhaol ar deuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru. Dangosodd y gwerthusiad o ail flwyddyn y Cynnig fod cyflog canolrif rhieni sy'n cael eu cefnogi gan y Cynnig oddeutu £21,000 y flwyddyn. Mae hyn yn is na'r cyflog cyfartalog cenedlaethol, sef £25,895 y flwyddyn, fel y'i cofnodwyd gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (Swyddfa Ystadegau Gwladol)⁵. Felly, mae hyn yn awgrymu mai rhieni sy'n perthyn i'r grwpiau incwm canolig i isel sy'n manteisio ar y Cynnig fwyaf. Mae hyn yn debyg i'r canfyddiadau a gofnodwyd gan werthusiad y flwyddyn gyntaf.

Un o nodau allweddol y Cynnig yw gwella rhagolygon gwaith rhieni nawr ac yn y dyfodol drwy leihau costau gofal plant fel rhwystr i gyflogaeth. Er i'r mwyafrif o'r ymatebwyr ddweud eu bod yn gweithio'r un nifer o oriau ag yr oeddent cyn i'r Cynnig gael ei gyflwyno, nododd lleiafrif o rieni eu bod bellach yn gweithio mwy o oriau.

Fodd bynnag, roedd ychydig o dan hanner y rhieni a holwyd o'r farn bod y Cynnig wedi arwain at gynnig mwy o gyfleoedd iddynt o ran hyfforddiant mewn swydd, a dysgu a datblygu, ac roedd ychydig dros hanner o'r farn bod y Cynnig wedi rhoi'r cyfle iddynt ennill mwy o gyflog.

Nododd dros hanner y rhieni a holwyd fod y Cynnig wedi rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt o ran penderfyniadau am waith. Mae hyn ychydig yn is na'r rhieni a holwyd yn ystod y gwerthusiad o'r Cynnig yn y flwyddyn gyntaf a wnaeth fynegi'r un safbwyntiau.

Ymhlith manteision eraill y Cynnig roedd rhieni yn teimlo llai o straen o ran cydbwysedd bywyd a gwaith, rhieni yn gweithio mwy o oriau, gan deimlo'n fwy

sicr yn eu rolau ac felly gwneud eu swyddi yn fwy cynaliadwy, a rhieni yn gwella cydberthnasau gwaith wedi iddynt allu newid o waith rhan-amser i waith llawn amser. Mae bron pob teulu wedi gweld eu costau gofal plant yn lleihau o ganlyniad i'r Cynnig.

Nodwyd mai un o'r heriau cyffredin o ran cyflwyno'r Cynnig fu cyfrif am y gwahanol bolisiâu addysg gynnar a modelau cyflwyno ledled Cymru. Nodwyd bod gwahanol oriau darpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau o fewn awdurdodau lleol unigol ac ar eu traws yn her yn ystod blwyddyn un a dau cyflwyno'r Cynnig, gan beri dryswch i awdurdodau lleol, darparwyr a rhieni.

Mae'r amrywiadau o ran y dyddiadau y mae awdurdodau lleol wedi eu rhoi lle y gall plant dderbyn addysg gynnar hefyd wedi peri heriau sylweddol o ran system weinyddol awdurdodau lleol a chyfathrebu â rhieni.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi ei chael hi'n anodd dangos bod rhieni yn gymwys. Mae'r heriau hyn wedi deillio'n bennaf o ddangos cymhwysedd o ran cyflogaeth unigolion hunangyflogedig, yn ogystal â'r rhai sydd ar gontractau dim oriau.

Un maes arall sydd wedi peri her i rieni yw deall beth sydd ar gael iddynt yn ystod gwyliau ysgol. Nid oedd rhai rhieni yn deall bod angen iddynt dalu am ofal plant am rai wythnosau yn ystod gwyliau ysgol (h.y. darperir y Cynnig 48 wythnos y flwyddyn, nid 52). Cafodd peth o'r dryswch hwn ei greu gan y ffaith nad oedd y darparwyr yn sicr am yr hyn y gallai rhieni ei dderbyn ychwaith.

Mae rhai darparwyr wedi nodi nad yw'r gyfradd o £4.50 yr awr yn ddigonol, ac nad yw'n cwmpasu eu costau sy'n mynd yn uwch drwy'r amser. Mae hyn wedi bod yn fwy o broblem i rai mathau o leoliadau, yn enwedig y rhai sy'n cynnig gofal sesiynol a darparwyr mewn rhai rhannau o Gymru.

Nid yw'r Cynnig yn cefnogi rhieni sydd mewn addysg a hyfforddiant, nac aelwydydd di-waith.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Yn sgil canfyddiadau gwerthusiad yr ail flwyddyn, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu mwy o eglurder ynghylch y Cynnig (gan gynnwys sut mae'r ddarpariaeth adeg gwyliau yn gweithio) a sut mae'n cydblethu â darpariaeth addysg gynnar. Rydym wrthi'n cynnal ymgyrch gyfathrebu genedlaethol er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymhlith rhieni, yn ogystal â mathau eraill o gymorth gyda chostau gofal plant a allai fod ar gael iddynt.

Mae gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynnig a sut i wneud cais ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth cod post i nodi Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol perthnasol y mae angen i rieni gysylltu ag ef.

Anelir y Cynnig Gofal Plant at gefnogi rhieni sy'n gweithio. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod y Cynnig yn un o gyfres o raglenni sy'n anelu at gefnogi rhieni gyda chostau gofal plant. Mae gofal plant wedi'i ariannu ar gael drwy ein rhaglen Dechrau'n Deg, ac mae gan bob plentyn hawl i 10 awr o addysg gynnar o leiaf o'r tymor ar ôl ei drydydd pen-blwydd. Hefyd, mae rhaglenni fel Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn cynnig cymorth i rieni os mai'r prif rwystr i ddychwelyd i'r gwaith yw gofal plant.

Yn ei fanifesto ar gyfer arweinyddiaeth Llafur Cymru, ymrwymodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford AC, i adolygiad canol tymor o'r Cynnig Gofal Plant, gyda'r bwriad o'i ymestyn i rieni mewn addysg a hyfforddiant. Disgwylir i'r adolygiad gael ei gwblhau yn ystod 2020.

Hefyd, mae'r gyfradd o £4.50 yr awr yn cael ei hadolygu ac mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â darparwyr a rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'r gwaith hwn. Disgwylir i ganfyddiadau'r adolygiad hwn fod ar gael yn ystod 2020.

Mae ymdrechion yn parhau i integreiddio dwy elfen y Cynnig (addysg gynnar a gofal plant). Y weledigaeth tymor hwy yw system Addysg a Gofal Plentynod Cynnar fwy integredig. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'n ddefnyddiol o bosibl i gymharu addysg gynnar a gofal plant.

Mae'n allweddol bod y ddarpariaeth i blant yn cael ei chyflenwi gan ymarferwyr sy'n dilyn egwyddorion addysgegol sy'n gyson â gwybodaeth hirsefydledig am yr hyn sydd fwyaf effeithiol ar gyfer datblygiad plant. Mae canolbwyntio ar yr addysgeg yn symud y drafodaeth yn ei blaen i ystyried yr hyn y profwyd ei fod o fudd i blant. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn y drafodaeth hon â diddordeb, ac yn ystyried beth y mae hyn yn ei olygu i ddyfodol gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar ledled Cymru.

Mae'r Cynnig yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi egwyddor gyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ymwneud ag ymyrryd mewn ffyrdd cadarnhaol nawr er budd pobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r polisi yn cyfrannu at nodau Llesiant y Ddeddf, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â Chymru lewyrchus ac iachach.

Mae'r polisi yn helpu i gefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, yn arbennig:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant

- Hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb
- Cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes

Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar rieni sy'n gymwys, gan eu cefnogi i mewn i waith a rhoi mwy o ddewisiadau iddynt ym myd gwaith.

Mae'n cefnogi pum ffordd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel a ganlyn:

Hirdymor: gall buddsoddi mewn gofal plant a chwarae o ansawdd helpu plant bach i ddatblygu'n oedolion iach ac egnïol. Mae'n datblygu eu llesiant gwybyddol a chymdeithasol ac emosiynol ac yn lliniaru effeithiau niweidiol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gall gofal plant hefyd alluogi rhieni i weithio a chael hyfforddiant, a chael teuluoedd allan o dlodi.

Atal: Gall profiadau blynyddoedd cynnar o ansawdd ddatblygu gwydnwch plant a helpu i atal problemau iechyd corfforol a meddyliol yn ddiweddarach. Gall gofal plant o ansawdd da hefyd gefnogi ymlyniad a datblygiad cydberthnasau iach, a lleihau tlodi i deuluoedd.

Integreiddio: Mae'r Cynnig Gofal Plant yn integreiddio ag amcanion polisi eraill Llywodraeth Cymru a dyletswyddau cyffredinol awdurdodau lleol o ran gofal plant, sef datblygu a chyflawni polisiau sy'n sicrhau bod yr angen/galw am ofal plant ar lefel leol yn cael ei ddeall yn llawn, a bod camau yn cael eu cymryd i ddarparu gofal plant o ansawdd sy'n diwallu anghenion rhieni sy'n gweithio ac yn cefnogi datblygiad plant.

Cydweithio: Wrth gyflawni'r polisi Cynnig Gofal Plant, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r Cynnig yn eu hardaloedd a chyrrff mantell sy'n cynrychioli barn darparwyr gofal plant.

Cyfranogiad: Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chyrrff mantell y sector ac yn uniongyrchol gyda darparwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau eu bod yn helpu i lywio a chyflwyno'r Cynnig.

Mae rhieni wedi chwarae rhan uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu'r Cynnig drwy'r ymgyrch #trafodgofalplant, a welodd nifer o grwpiau ffocws rhieni a sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal rhwng 2016 a 2019. Hefyd, gall rhieni gysylltu'n uniongyrchol â'r tîm sy'n gweithio ar y Cynnig drwy dudalen Facebook y Cynnig Gofal Plant a blwch post trafodgofalplant.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Ar hyn o bryd, bwriedir cynnal gwerthusiadau rheolaidd o'r Cynnig Gofal Plant ac mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu'r gwerthusiad o drydedd flwyddyn gweithredu cynnar. Bydd y gwerthusiadau hyn yn adeiladu ar yr adroddiadau blaenorol er mwyn ein galluogi i olrhain ein cynnydd tra bo'r Cynnig yn mynd rhagddo. Bydd hyn yn golygu y gallwn fesur effaith y Cynnig ar deuluoedd cymwys dros sawl blwyddyn, a bydd y wybodaeth reoli a gesglir yn rheolaidd yn ein galluogi i olrhain y defnydd o'r Cynnig.

Rydym yn adolygu ac yn monitro'r Cynnig yn barhaus ac mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw sylwadau sy'n dod i law oddi wrth ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y Cynnig yn targedu'r teuluoedd sy'n gweithio hynny sydd angen cymorth fwyaf.